Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cylchlythyr perchnogion

Coetiroedd gwell i Gymru

Newyddion gan Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru • Rhifyn 4 • Ionawr 2010

Cynnwys

Newid rhif ffôn
CGG yn ariannu llwybrau beicio mynydd
Rheolau newydd ar ddefnydd deuol o'r tir
Oes gennych chi 'Goetiroedd ar gyfer Dysgu'?
Gwasanaeth ar-lein Grantiau a Thrwyddedau ar gyfer perchnogion
CGG Coedwigoedd Bychain
Cynllun Datblygu Gwledig
Hawlio grantiau CGC
Manylion cyswllt

Newyddion diweddaraf

RHIF FFÔN NEWYDD

O'r 23ain o Dachwedd newidiodd y rhif ffôn ar gyfer canolfan gyswllt Comisiwn Coedwigaeth Cymru i **0300 068 0300**. Bydd pris yr holl alwadau i'r rhif hwn yn ôl y raddfa tirwifren genedlaethol safonol hyd yn oed os ydych chi'n ffonio o ffôn symudol.

Bydd yr hen rif yn awtomatig yn ailgyfeirio galwadau am gyfnod o 3 mis yna bydd neges gyda'r rhif newydd am 3 mis pellach.

Rhifyn nesaf Gorffenaf 2010

Mae'r rhifynnau presennol ac ôl-rifynnau ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru:
www.forestry.gov.uk/wales

Ardal sgiliau newydd ar gyfer gwefrau coetirol

Mae miloedd o bobl yn ymweld â choetiroedd Cymru bob blwyddyn i daclo'r rhwydwaith cynyddol o lwybrau beicio mynydd safon byd-eang.

Yn awr mae CCC yn cynorthwyo beicwyr i baratoi eu hunain ar gyfer y cannoedd o filltiroedd o lwybrau ar draws Cymru trwy ddarparu'r cyllid ar gyfer ardal sgiliau newydd lle y gallant brofi eu gallu cyn mentro i'r coedwigoedd.

Agorwyd yr ardal sgiliau ym mis Hydref yng nghanolfan beicio mynydd Llandegla ger Wrecsam y mae UPM Tilhill yn berchen arni, diolch i grant oddi wrth Gwell Coetiroedd i Gymru. Mae Simon Miller, Cynlluniwr Rheoli Tilhill, wedi bod yn rhoi cynllun at ei gilydd yn cynnwys pedair adran sgiliau fel bod beicwyr o bob gallu – o ddechreuwyr i feicwyr profiadol iawn – yn medru profi'r wefr, heb ormod o hynt a helynt.

Gall y bobl hynny sy'n newydd i'r gamp ddysgu ac ymarfer technegau beicio sylfaenol, tra y gall beicwyr mwy profiadol daclo'r ardal Beicio Rhydd, sy'n cynnwys neidiau baw a neidiau a adeiladwyd, mannau disgyn a champau a ddyfeisiwyd gan ddyn. Mae'r Llwybr Pwmp yn dysgu beicwyr i gynnal a chynyddu cyflymder gyda'r lleiafswm o bedlo ac mae'r Slalom Dwbl yn gosod dau feiciwr benben mewn ras ar hyd llwybrau, neidiau a thwmpau.

Dywedodd Dave Liddy, ymgynghorydd beicio mynydd CCC, fod mwy a mwy o bobl yn darganfod y cyffro o feicio mynydd yng nghoetiroedd Cymru.

"Llynedd, ymwelodd dros 410,000 o feicwyr â chanolfannau beicio safon byd-eang Cymru, gan ddod â miliynau o bunnoedd i economi Cymru, ond rydym yn awyddus i annog y bobl hynny sy'n newydd i'r gamp i ddysgu ac ymarfer eu technegau beicio cyn iddynt fentro i'r coetiroedd," meddai.

"Mae ein coetiroedd yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer adloniant ac mae'r llwybrau beicio mynydd yn dangos sut y gall fforestydd mawr, sy'n cael eu rheoli'n dda, ddarparu pren a swyddi lleol yn ogystal â rhoi diwrnod allan bendigedig."

"Gall y bobl hynny sy'n newydd i'r gamp ddysgu ac ymarfer technegau beicio sylfaenol"

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Trefniadau meddiannaeth tir pwysig ar gyfer perchnogion tir a thenantiaid.

Cyhoeddodd cyhoeddiad Tachwedd 2009 o'r cylchgrawn Gwlad erthygl ynghylch rheolau sy'n awr yn weithredol am ddefnydd deuol tir. Hyn yw pan fo dau reolwr tir – fel arfer landlordiaid a thenantiaid – yn defnyddio'r un parsel o dir i hawlio dan wahanol gynlluniau Cynllun Datblygu Gwledig a Chymorth Uniongyrchol ar yr un pryd. Mae'r rheolau hyn yn cynnwys Gwell Coedtiroedd i Gymru (CGG).

Mae Llys Ewropeaidd yr Archwilwyr a Chomisiwn Rheolau Ewrop wedi penderfynu mai dim ond un unigolyn all fod 'mewn rheolaeth' ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol a thir 'at eich gwasanaeth' ar gyfer SPS neu unrhyw barsel tir unigol. Mae'r rheolau hyn hefyd yn gymwys i GCC oherwydd ei fod yn derbyn cyllid dan y Cynllun Datblygu Gwledig.

Gall y lefel angenrheidiol o 'reolaeth' gael ei chyflawni dim ond pan fydd yr Hawliwr yn:

- Berchennog/preswylydd;
- Tenant, sydd â 'deiliadaeth unigryw' neu denantiaeth lawn Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, lle na fydd y naill na'r llall yn dod i ben o fewn y cyfnod pum mlynedd ac, yn y naill achos a'r llall, lle nad oes unrhyw gymalau gwrthdrawiadol yn y cytundeb tenantiaeth a fyddai'n gwrthdaro gyda gwneud cais am neu gyflwyno cytundeb CGG; neu,
- Drwyddedwr, sy'n unigolyn sy'n rhoi trwydded i ddeiliad trwydded.

Rhain fydd yr unig fathau o feddiannaeth tir a fydd yn bodloni'r cynlluniau Datblygu Gwledig, megis CGG, ar gyfer 'rheolaeth', cyn belled ag y bydd gennych reolaeth am hyd y cytundeb.

Gallai'r sefyllfaoedd lle y gall defnydd deuol o reolau tir effeithio arnoch fel hawliwr CGG fod fel a ganlyn:

- Chi yw'r perchennog gyda chytundeb CGG, ond mae gennych denant sy'n hawlio SPS ar y coetiroedd.
- Chi yw'r perchennog gyda chytundeb CGG, ond mae gennych denant sydd wedi cofrestru'r coetir mewn cytundeb amaeth-amgylcheddol, megis Tir Gofal neu Tir Cynnal.
- Rydych yn denant gyda chytundeb CGG, ond mae gennych landlord sy'n hawlio SPS ar y coetiroedd.
- Rydych yn denant gyda chytundeb CGG, ond mae gennych landlord sydd wedi cofrestru'r coetiroedd mewn cytundeb amaeth-amgylcheddol.

Felly, mi all fod yn angenrheidiol i adolygu tentaniaethau a thrwyddedau presennol, a'u haddasu fel bo angen i sicrhau bod y busnes sengl cywir mewn lle i ganiatáu iddo fod yn hawliwr ar gyfer yr holl gynlluniau cysylltiedig ar y tir hwnnw.

Bydd Taliadau Gwledig Cymru (TGC) yn gwirio mai dim ond un busnes sy'n hawlio ar gyfer cynlluniau ar unrhyw barsel unigol a'u bod yn ateb y gofynion meddiannaeth tir i fod yn gymwys ar gyfer y cynlluniau. Ni fydd TGC yn derbyn cytundebau anysgrifenedig fel tystiolaeth dda i ddangos naill ai pwy sydd â 'rheolaeth' o'r tir neu fod y tir 'at eich defnydd'. Byddai'n ddoeth i gael cyngor proffesiynol i sicrhau bod cytundebau ysgrifenedig ar gyfer defnydd a meddiannaeth tir yn cael y canlyniadau y mae'r holl barïion yn eu bwriadu, fel bod darpar hawlwyr yn gymwys. Bydd methiant i sicrhau bod gennych y meddiannaeth gywir o'r tir yr ydych yn hawlio arno yn medru arwain at gosbau neu waharddiadau.

Os hoffech chi drafod hyn ymhellach, cysylltwch â Kevin Taylor ar 0300 068 0300 ac hefyd ar ôl hynny os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynghylch rheolau defnydd deuol o'r tir.

Gellir cael yr erthygl lawn o Gwlad o Swyddfeydd Adrannol LlCC neu ei lawrlwytho o wefan LLCC ar:
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ecnewsevents/gwlad/gwlad2009/gwlad90/?lang=en



Grantiau Gwelliannau i Goetiroedd ar gyfer 'Coetiroedd ar gyfer Dysgu'

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf mae'r diddordeb mewn dysgu'n seiliedig ar goetiroedd wedi cynyddu. Mae cyflwyniad y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, sef cwricwlwm arloesol ar gyfer plant 3 i 7 mlwydd oed sy'n gofyn am fynediad cyfartal i amgylcheddoedd dan do ac awyr agored a symudiad tuag at sgiliau ymarferol ar gyfer pob oed, wedi golygu fod mwy o bobl yn chwilio am amgylcheddoedd cadarn, diogel ac ysgogol lle y gallant ddysgu ynddynt a dysgu amdanynt. Pa le gwell na choetir yng Nghymru?

Gellir defnyddio coetir mewn amrywiaeth o ffyrdd yn ffurfiol ac hefyd yn anffurfiol, fel lleoliad ac hefyd fel adnodd. Ymweliadau diwrnod, gwirfoddoli, chwarae naturiol, Ysgol y Goedwig – rhaglen o ymweliadau gan yr un grwp i'r un safle yn cael eu harwain gan ymarferydd Ysgolion Coedwig cymwysedig, cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol, cyrsiau achrededig, llwybrau a throeon cerdded wedi'u harwain. Gall y cwbl ddigwydd mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus.

Mae strategaeth newydd Coetiroedd Cymru yn cynnwys tair elfen allweddol:

- Darparu mynediad i goetiroedd ar draws Cymru sydd wedi'u rheoli yn dda, sy'n lleoliadau addas ar gyfer cefnogi addysg, cyflwyno a datblygu dysgu a sgiliau
- Mwy o bobl yn mwynhau manteision dysgu gydol oes coetiroedd a'u cynhyrchion
- Hyrwyddo gweithlu ffyniannus, medrus yn y sector coedwigaeth a choetiroedd

Mae CGG ar hyn o bryd yn cynnig cyfleoedd ariannu arbennig trwy GGC (Grantiau Gwella Coetiroedd). Mae dau goetir a ddefnyddir ar gyfer Ysgolion Coedwig yn ddiweddar wedi cael cymeradwyaeth am eu cynlluniau CGG. Gall coedwigoedd sydd i gael eu defnyddio ar gyfer dysgu rheolaidd fanteisio ar gymorth gyda chostau ychwanegol megis offer cychwynnol.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn darparu lleoliad ar gyfer dysgu mewn coetiroedd a'ch bod eisiau gwybod mwy, cysylltwch â Sue Williams, Arweinydd Tîm, Coetiroedd ar gyfer Dysgu CCC ar 0300 068 0300.

"Pa le gwell na choetir yng Nghymru?"

Defnydd o wasanaethau Ar-lein Grantiau a Thrwyddedau ar gyfer perchnogion

Os ydych chi eisiau dilyn hynt eich cynllun CGG neu wneud cais ar-lein unwaith fod gwaith wedi ei wneud, gallwch logio ymlaen a chofrestru ar ein gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau i berchnogion.

Mae'r llwybr i gofrestru trwy ein gwefan ac o gwblhau proses gofrestru syml un cam, anfonir e-bost atoch yn cadarnahu enw defnyddiwr a chyfrinair a fydd yn galluogi mewngofnodi'n llwyddiannus i'r system ar unrhyw amser sy'n gyfleus.

I gofrestru, gall perchnogion neu asiantau gael mynediad i wefan CCC trwy ddefnyddio'r ddolen **www.eforestry.gov.uk**

Dewiswch y Gwasanaeth Ar-lein Grantiau a Thrwyddedau – i wneud cais ar-lein am grant ac wedyn dewiswch yr opsiwn cliciwch yma i gofrestru.

Rhaid i chi yn awr ddefnyddio'r rhif adnabod a'r cyfrinair er mwyn mewngofnodi i'r system ac er mwyn ysgogi'r cyfrif yn llawn rhaid i chi ffonio neu e-bostio'r tîm Gwasanaethau Technegol a rhoi gwybod iddynt eich bod wedi sefydlu eich hunan fel defnyddiwr newydd. Bydd y tîm wedyn yn eich atodi fel perchennog newydd, i'ch achos eich hunan a bydddwch yn medru gweld manylion y cynllun yn llawn.

Cofiwch os ydych yn cael problemau â'r drefn uchod, e-bostiwch ein tîm Gwasanaethau Technegol at **bww.ts@forestry.gsi.gov.uk** a chynnwys eich rhif ffôn.

Cynllun Datblygu Gwledig – Digwyddiad echelau croes yn Neuadd Gregynog

Gosododd Cynllun Datblygu Gwledig 2007-13 bedwar amcan craidd (echelau) ar gyfer datblygu gwledig.

Echel 1 Cynyddu ysfa gystadleuol y sector amaethyddol drwy gefnogaeth ar gyfer ailstrwythuro;

Echel 2 Gwella'r amgylchedd a'r cefn gwlad drwy gefnogaeth ar gyfer rheoli tir (gan gynnwys gweithrediadau sy'n berthnasol i safleoedd Natura 2000);

Echel 3 Gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig a hyrwyddo amrywio gweithgareddau economaidd drwy fesurau sy'n targedu'r fferm a sectorau gwledig eraill: a

Echel 4 Gwella defnydd ymagwedd Leader sy'n darparu ymagwedd o'r gwaelod i fyny, a yrrir gan y gymuned yn defnyddio partneriaethau lleol i arwain gweithredu'r tair echel arall.

Cytunodd un o berchnogion ein coetiroedd, Ian Jones o Gwm Belan ger Llanidloes yn garedig i siarad am ei gynllun Gwell Coetiroedd i Gymru a ariennir o dan echel groes, mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan y Cynllun Datblygu Gwledig ym mis Hydref. Siaradodd Ian â rheolwyr a buddiolwyr cynlluniau amgylcheddol amaethyddol, megis Farming Connect a chawsom ddiweddariad ar Glastir.

Mae Ian yn berchen ar dyddyn 36 erw a bu'n trawsnewid ei dir porfa llwm ar ochr y bryn yn raddol yn goetir cynhenid. "Ces i fy magu gydag amaethyddiaeth ddwys a defnyddio gwrteithiau felly rwyf yn awr yn troi'r fantol ac yn rhoi rhywbeth yn ôl", meddai. Mae ef wedi derbyn taliadau ychwanegol ar gyfer defnyddio stoc leol a bod yn yr ugain uchaf o ran rhwydwaith ffocal. "Mae fy nhyddyn yn rhy fach i'm cynnal, ond mae grant Coetiroedd Gwell i Gymru wedi caniatáu i mi lwyddo wneud gwaith contractio a phlannu a chynnal a chadw coetir newydd ar gyfer y dyfodol" dywedodd Ian wrth y gynulleidfa.

Ffermwr llecyn prydferth yw'r cyntaf i gipio'r grant coetir newydd

Ffermwr yn un o'r ardaloedd mwyaf prydferth yng Nghymru oedd yr un cyntaf i dderbyn grant Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi ei anelu at ddod â 12,000 hectar o goetiroedd preifat i mewn i reolaeth gynaliadwy o goetiroedd dros y 3 mlynedd nesaf.

Cofrestrodd Colin Owen, perchennog Fferm Fairbirch yn Ne Cymru, ar gyfer grant newydd Coedwigoedd Bychain Gwell Coetiroedd i Gymru sy'n targedu'r math o goetir a geir ar 90 y cant o ffermydd Cymru.

Mae fferm Colin yn swatio yn Y Crwys, ger Abertawe, o fewn ardal o harddwch eithriadol naturiol y Gŵyr, tirwedd eiconig sy'n denu miliynau o ymwelwyr i Gymru.

Mae'r coed ar y fferm gyda'i gilydd yn creu un o'r blociau mwyaf o goetir ar ogledd penrhyn Gŵyr, gan wneud y tir yn gynefin bywyd gwyllt pwysig yn ogystal ag yn atyniad ar gyfer ymwelwyr i'r ardal.

Ers prynu'r fferm 25 mlynedd yn ôl, mae Colin wedi bod yn gyson yn cydbwyso'r ystyriaethau hyn tra'n mwyhau gwerth ei goedwigoedd, gan greu amrediad o gynhyrchion o estyll llawr moethus i greonau siarcol ar gyfer pensiliau artistiaid.

Yn awr, mae'n edrych ymlaen at ddatblygu ei goetir – sy'n cael ei ddisgrifio ganddo fel ymrwymiad "o'r crud i'r bedd" – ar ôl bod y cyntaf yn y rhes ar gyfer y grant Coedwigoedd Bychain.

Mae'r grant newydd yn gangen fwy llyfn o becyn CGG Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac mae wedi'i gynllunio gydag amaethwyr yn amlwg iawn yn y meddwl: mae dros 33,000 hectar o goetiroedd fferm yng Nghymru yn gymwys ar gyfer grant Coedwigoedd Bychain.

Gobeithir mai Colin fydd y cyntaf o nifer o ffermwyr yng Nghymru i gymryd mantais o'r grant, sy'n cynnig hyd at 75 y cant o gost rheoli unrhyw goetir o dros 0.25 hectar a llai nag 20 hectar. Yn ôl Richard Siddons, pennaeth grantiau a rheoliadau yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru, "Mae gan goedwigoedd bychain Cymru rôl tra phwysig i'w chwarae mewn creu mwy o orchudd coetir a dod â mwy o goetiroedd o fewn rheolaeth gynaliadwy i helpu i daclo newid yn yr hinsawdd. Rydym yn anelu at greu 1,5000 hectar ychwanegol o blannu newydd erbyn 2012."

"Mae llawer o'r coedwigoedd hyn ar ffermydd yng Nghymru ac rydym yn annog ffermwyr a pherchnogion llai i reoli eu coetiroedd yn gynaliadwy ac mewn ffordd sy'n datgloi potensial economaidd y coedwigoedd hyn."

Gellir dod o hyd i'r coetir hynafol 15 hectar ar Fferm Fairbirch ar y Rhestr Coetiroedd Hynafol, sy'n golygu ei fod mwy na thebyg wedi bod yn goetir parhaus ers o leiaf 1600.

Fodd bynnag, ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, cafodd y goedwig ei hesgeuluso yn bennaf, fel llawer o goetiroedd fferm bychain. Ond dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae Colin wedi dechrau'n araf i reoli'r tir trwy fôn docio, teneuo'r coed a gosod llwybrau i ganiatáu mynediad ar gyfer gweithio'r goedwig.

Mae wedi adeiladu busnes yn gwneud estyll llawr ond mae'n bwriadu defnyddio ei grant Coedwigoedd Bychain i ddefnyddio mwy o'i goed ei hunan, yn hytrach na phrynu'r pren i mewn.

Bydd Colin hefyd yn rhoi llwybrau newydd i mewn i ganiatau i beiriannau symud pren sydd wedi ei dorri, a bydd bôn docio coed cyll a chelyn yn caniatâu i fwy o olau daro llawr y fforest, gan roi digon o olau i hadau sy'n disgyn o goed aeddfed i dyfu ac annog y nifer o blanhigion coetir sy'n blodeuo.

Does dim byd yn cael ei wastraffu o'r coed sydd wedi'u torri. Mae'n defnyddio'r gwastraff i gynhyrchu creonau siarcol ar gyfer pensiliau artistiaid yn ei ddau losgwr siarcol, gan ddefnyddio deunydd a ystyriwyd cyn hyn yn ddiwerth yn fasnachol.

Mae deunyddiau dros ben eraill addas yn cael eu ddefnyddio i wneud darnau o ddodrefn hynod ac anarferol.



Blynyddoedd Hawlio

Mae blynyddoedd hawlio wedi cael eu haseinio ar gyfer pob grant Coetiroedd Gwell i Gymru ac mae'n rhaid i'r grant fod wedi cael ei hawlio erbyn 28ain Chwefror yn ystod y flwyddyn gais hynny. Mae'n rhaid cael blynyddoedd hawlio er mwyn i'r Comisiwn Coedwigaeth fedru rheoli'r gyllideb grant a rhagweld gofynion pellach.

Pan fyddwch yn dewis blwyddyn hawlio sicrhewch eich bod yn realistig ynglŷn â phryd fydd y gwaith yn cael ei wneud. Os nad ydych yn siŵr y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn y flwyddyn arfaethedig yna rydym yn awgrymu eich bod yn dewis blwyddyn hawlio yn y dyfodol.

Er y gall Comisiwn Coedwigaeth Cymru ganiatáu i ddalwyr gytundebau addasu eu blynyddoedd hawlio oherwydd nad ydy'r gwaith wedi cael ei wneud, ni fedrwn warantu hyn ac mae'n creu fwy o waith i bawb - deiliad cytundeb, ei hasiant a staff CCC.

Hawliwch daliadau dyledus ar y CGC

Os oes gennych chi hen CGC (Cynllun Grantiau Coetir) sydd â thaliadau'n ddyledus i chi, byddwn yn anfon gwahoddiadau i chi hawlio eich taliadau yn awr. Bydd hyn ar gyfer pob taliad grant sydd yn ddyledus i gael ei dalu yn ystod bywyd y cynllun. Er y byddwn yn talu rhandaliadau'r grant yn gynharach bydd deiliaid cytundeb CGC yn dal i orfod cydymffurfio ag amodau a thelerau'r cytundeb hyd at ddiwedd y cyfnod cytundeb.

Y drefn gwyno

Mae'r holl Arbenigwyr a Chynllunwyr Rheoli wedi arwyddo Cod Ymarfer. Os ydych chi'n anhapus gyda pherfformiad Cynlluniwr neu Arbenigwr, dylech ddilyn y drefn gwyno isod a geir ar wefan CCC:
http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6ldg9t
Bydd cwynion a wneir yn erbyn Cynlluniwr neu Arbenigwr yn cael eu bwydo i'r broses 'Cynnal Safonau' a chymerir camau gan ddefnyddio'r cyfarwyddyd a amlinellir yn y broses.

Manylion cysylltu

Ymholiadau cyffredinol, ffoniwch: **0300 068 0300**
neu ewch i: **www.forestry.gov.uk/wales**
Ymholiadau technegol, anfonwch e-bost: **bww.ts@forestry.gsi.gov.uk**
Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein (GLOS): **www.eforestry.gov.uk**
Awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: **alison.evans@forestry.gsi.gov.uk**

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Mae coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi cael eu hardystio yn unol â rheolau Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd S GS-FM/COC-0357 © 2006 Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd AC
Argraffwyd y ddogfen hon ar Revive 50:50 Offset, papur wedi'i ailgylchu a gynhyrchir drwy ddefnyddio 50% o wastraff adferedig a 50% ffibr pren gwyryf. FSC SGS-COC-0912